Llywodraeth Cymru

# Cyfalaf Trafodiadau Ariannol
Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid (Tachwedd 2024)

22/01/2025

Ym mis Tachwedd 2024, cyflwynodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ar Gyfalaf Trafodiadau Ariannol. Mae'r adroddiad yn cynnwys 15 argymhelliad.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny a'r camau nesaf y mae'n bwriadu eu cymryd cyn cylch cyllideb 2026-27.

# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud y defnydd gorau posibl o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol (CTA) er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Gweinidogion.

**1.** Diolch i aelodau Pwyllgor Cyllid y Senedd am eu hadroddiad ar Gyfalaf Trafodiadau Ariannol. Rwy'n rhannu eu hymrwymiad i wella'r broses o ddefnyddio CTA.

**2.** Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i wella ei phrosesau ac i gynyddu tryloywder ynghylch y defnydd o CTA. Roedd Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn cynnwys mwy o fanylion am CTA nag sydd wedi'u darparu o'r blaen yn y cam drafft er mwyn cefnogi craffu effeithiol ar y gyllideb. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau, ac rwy'n croesawu cyfraniad adroddiad y Pwyllgor at y gwaith hwn.

**3.** Fel y mae'r adroddiad yn ei nodi, gan fod CTA yn fath o gyllid cyhoeddus ad-daladwy, rhaid ei ddefnyddio'n briodol yn unol â'r gofynion a osodir ar lefel Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol. Mae'r gofynion hyn yn gosod cyfyngiadau ar i ba raddau y gellir diwygio prosesau. Serch hynny, byddwn yn ceisio gweithio'n adeiladol i weithredu argymhellion y Pwyllgor pan fo hynny'n bosibl.

**4.** Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod ac wedi gofyn i'm swyddogion barhau i gadw cysylltiad â Chlerc y Pwyllgor Cyllid i sicrhau bod y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith sy'n gysylltiedig â'r argymhellion hyn.

# 2. Ymateb i'r 15 argymhelliad

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn asesu sut y mae ailddosbarthiad Banc Datblygu Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel corff llywodraeth ganolog wedi effeithio ar y ffordd y gall ddefnyddio a dyrannu cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad yr asesiad, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd.

Ymateb: Derbyn

Mae ailddosbarthu Banc Datblygu Cymru fel corff llywodraeth ganolog yn effeithio'n bennaf ar ba bryd y mae gwariant CTA yn cael ei gydnabod yn erbyn cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae dwy elfen barhaus o waith y mae'n rhaid eu cwblhau cyn y gellir rhoi asesiad i'r Pwyllgor.

Yr elfen gyntaf yw'r penderfyniad gyda Thrysorlys EF ynglŷn â thriniaeth canlyniadau cyllidebol sy'n deillio o ailddosbarthu Banc Datblygu Cymru fel corff llywodraeth ganolog.

Yr ail yw trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EF ynghylch y Fframwaith Rheoli Trafodiadau Ariannol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024. Disgwylir i'r rhain gael eu cynnal yn gynnar yn 2025 i ystyried unrhyw effeithiau posibl ar feysydd datganoledig.

Bydd canlyniad y gwaith hwn yn arwyddocaol i'n hasesiad o sut y bydd ailddosbarthu Banc Datblygu Cymru yn effeithio ar y ffordd y gall ddefnyddio cyllid CTA.

## Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd trafodaethau â'r Trysorlys ynghylch diwygio cyfalaf trafodiadau ariannol.

Ymateb: Derbyn

Ni fu unrhyw drafodaethau ffurfiol â'r Trysorlys yn ystod y blynyddoedd diwethaf ynghylch diwygiadau posibl i CTA, ond rydym yn awyddus i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar hyn. Mae rhai trafodaethau anffurfiol cynnar rhwng swyddogion wedi cael eu cynnal, a rhagwelir y bydd diwygiadau i CTA yn cael eu hystyried drwy Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor ar ôl y broses honno.

## Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau cyfanswm y cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael hyd yn hyn.

Ymateb: Derbyn

Hyd at a chan gynnwys Prif Amcangyfrifon 2024-25, mae Llywodraeth y DU wedi darparu £2,230,774m o CTA wedi'i glustnodi ers 2012-13.

## Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn sicrhau bod manylion ynghylch dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol yn cael eu cyflwyno yn nogfennaeth Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 a'r blynyddoedd i ddod ac, os nad yw hyn yn bosibl, y caiff esboniad llawn ei roi i gyfiawnhau'r dull gweithredu a fabwysiadwyd.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth dryloyw ynglŷn â sut y dyrennir cyllid o bob ffynhonnell.  Felly, cyhoeddom fanylion dyraniadau CTA arfaethedig yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 ar 10 Rhagfyr 2024.

Bwriadwn ddarparu'r wybodaeth hon yn y Gyllideb Ddrafft bob blwyddyn. Os na fydd hyn yn bosibl, rhoddir esboniad i'r Pwyllgor ymlaen llaw.

## Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y mae symiau canlyniadol Barnett yn effeithio ar y cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol sydd ar gael, cyn gynted ag y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid ychwanegol o'r fath.

Ymateb: Derbyn

Os bydd cyllid ychwanegol sy'n effeithio ar CTA yn dod i law y tu allan i'r broses gyllidebol flynyddol, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cyllid cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i'r cyllid gael ei gadarnhau.

## Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi data cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'u dadgyfuno ochr yn ochr â dogfennau'r Gyllideb Ddrafft o 2025-26 ymlaen.

Ymateb: Derbyn

Yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26, cyhoeddom ddata wedi'u dadgyfuno yn y Tablau Ategol.

## Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cynnal dadansoddiad o'r defnydd o gyfalaf trafodiadau ariannol, fesul sector, ac yn cyflwyno ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gynnal dadansoddiad o ble mae CTA wedi'i ddyrannu hyd yma ac i ddarparu'r wybodaeth hon i'r Pwyllgor. Er mwyn hwyluso'r gwaith hwn,

rwyf wedi gofyn iddynt drafod ymhellach â'r Pwyllgor i ddeall natur yr wybodaeth a fyddai fwyaf defnyddiol i'r Pwyllgor.

## Argymhelliad 8

Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn sicrhau bod gwybodaeth ac arbenigedd sy’n ymwneud â chyfalaf trafodiadau ariannol yn cael eu rhannu ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, a bod hyfforddiant yn cael ei dargedu at staff mewn meysydd polisi nad ydynt wedi defnyddio’r cyllid hwnnw yn llawn hyd yn hyn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau adolygu'r canllawiau mewnol ar CTA ar gyfer cylch nesaf y gyllideb. Yn ogystal, bydd sesiynau hyfforddi wedi'u targedu ar gyfer staff sydd â phrofiad cyfyngedig o CTA neu sydd heb brofiad o gwbl ohono, ond a allai fod â chyfleoedd i ddefnyddio CTA yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt, yn cael eu cynnal gan fy swyddogion i helpu i hwyluso rhannu arbenigedd a gwybodaeth ar draws adrannau.

Mae Trysorlys Cymru yn darparu cymorth rhagweithiol i adrannau ar draws Llywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn i nodi a datblygu cynigion penodol, gan roi sylw penodol i gefnogi cynigion newydd ac arloesol o feysydd lle y mae diffyg profiad o ddefnyddio CTA. Mae trafodaethau wedi'u targedu hefyd yn cael eu cynnal ag arweinwyr cyllid a pholisi perthnasol yn ystod proses y gyllideb i sicrhau y gellir cyflwyno cynigion hyfyw o ystod mor eang o feysydd â phosibl.

## Argymhelliad 9

Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi’r tri maen prawf llwyddiant a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfalaf trafodiadau ariannol a bod hyn yn rhan o ganllawiau i fusnesau sydd â diddordeb mewn gwneud cais am gyllid o’r fath fel bod y canlyniadau disgwyliedig yn hysbys ar y dechrau cyn gwneud cais.

Ymateb: Derbyn yn Rhannol

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r egwyddorion craidd ar gyfer rheoli pob math o adnoddau cyhoeddus fel y’u nodir yn ‘Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru’ a chanllawiau Trysorlys EF ar gyllidebu cyfunol wrth ystyried defnyddio CTA. Dichonoldeb, hyfywedd a dymunoldeb cynnig yw’r ystyriaethau allweddol. Yn benodol o ran CTA, mae canllawiau Trysorlys EF ar gyllidebu cyfunol yn nodi bod disgwyl i unrhyw gyllid a ddarperir gael ei ad-dalu’n llawn. Felly, mae’r gallu i ad-dalu a phroffil disgwyliedig yr ad-daliadau’n cael eu hystyried bob tro cyn dyrannu CTA.

Mae’n ofynnol i bob dyraniad CTA ddilyn yr amodau ar gyfer defnyddio arian cyhoeddus, gan sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n effeithiol ac yn effeithlon, a bod buddsoddiadau’n cael eu had-dalu’n llawn. Rhaid gwneud dyraniadau mewn ffordd wrthrychol a theg, gan ddefnyddio dadansoddiadau cost a budd, a rhaid ceisio sicrhau gwerth da ac osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu canllawiau ar gyfer rhanddeiliaid allanol. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o fusnesau sy'n cael CTA yn gwneud hynny drwy Fanc Datblygu Cymru ac ni fyddant yn gwahaniaethu rhwng y ffrydiau cyllido a ddarparwyd ar gyfer y

benthyciad neu'r buddsoddiad. Mae'n annhebygol y bydd y busnesau hyn yn ymwybodol bod CTA wedi cael ei ddefnyddio, ac felly ni fyddai arnynt angen canllawiau penodol ar gyfer buddsoddiadau a ariennir gan CTA.

## Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd gan Fanc Datblygu Cymru i symleiddio'r broses ymgeisio am gyfalaf trafodiadau ariannol, a'r rhwystrau a wynebodd wrth wneud hynny o fewn y fframwaith presennol.

Ymateb: Derbyn

Ceisiadau busnes am gyllid.

Gwneir pob cais am gyllid gan Fanc Datblygu Cymru drwy un ffurflen gais ddigidol. Y model a weithredir gan y Banc Datblygu yw adolygu anghenion y busnes a darparu'r cyllid sydd fwyaf addas i'r cwmni, a all fod naill ai'n gyllid dyledion neu ecwiti, neu'n gyfuniad ohonynt, a gall hefyd ddod o gronfeydd lluosog.

Yr egwyddor arweiniol yw symleiddio'r prosesau ar gyfer busnesau cyn belled ag y bo modd a darparu'r gwasanaeth gorau i gwsmeriaid. Yn y pen draw, mae perchnogion busnesau'n meddwl mwy am y telerau a'r amserlen na pha un o'r 11 o gronfeydd busnes a reolir gan y Banc Datblygu fydd yn darparu'r cyllid. Mae'r broses ar gyfer y busnes yn cael ei phennu'n bennaf gan y math o gyllid sy'n cael ei geisio (er enghraifft cyllid dyledion, ecwiti neu brosiect), yn hytrach na chan gronfeydd unigol neu o ble mae eu cyfalaf yn dod.

O ran y broses ymgeisio, mae llawer o waith wedi'i wneud i symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau. Yn achos microfenthyciadau o hyd at £50,000 i fusnesau sydd wedi bod yn masnachu ers dwy flynedd neu fwy, nod y Banc Datblygu yw darparu penderfyniad o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen.

Gwnaed buddsoddiad pellach yn nhaith y cwsmer ac mae disgwyl lansio porth cwsmeriaid newydd yn gynnar yn 2025. Dyma gam arloesol a sylweddol sy'n enghraifft o ymrwymiad parhaus y Banc Datblygu i wasanaeth cwsmeriaid.

Yn ehangach, mae'r Banc Datblygu yn gweithredu model sydd wedi'i seilio ar berthynas ac sy'n galluogi busnesau i siarad yn uniongyrchol ag unigolion yn y banc os oes angen. Caiff ceisiadau ar gyfer benthyciadau mwy eu hystyried fesul achos. Mae hyn yn ychwanegu at yr amser a gymerir i ystyried cais o'i gymharu â dulliau sydd wedi'u seilio ar algorithm yn unig. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn helpu'r banc i ddeall anghenion ac amgylchiadau ymgeisydd yn well cyn gwneud penderfyniadau. Mae'r banc wedi cyflawni sgôr eithriadol o uchel, sef 90, yn y Net Promoter Score[1], sy'n dangos bod cwsmeriaid yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r dull sydd wedi'i seilio ar berthynas.

Y broses ar gyfer sicrhau CTA i'w ddefnyddio gan y Banc Datblygu

[1] Mae'r Net Promoter Score yn ddull poblogaidd o fesur profiad, boddhad a theyrngarwch cwsmeriaid.

Mae'r Banc Datblygu yn ystyried mewnwelediad a gwybodaeth o'r farchnad i nodi cyfleoedd ar gyfer cyllid newydd y mae'n credu fydd yn llwyddo yn y farchnad. Yna, bydd y Banc Datblygu yn datblygu ac yn cyflwyno achos busnes i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru. Os caiff ei dderbyn, bydd y tîm polisi perthnasol yn ymwneud â'r broses ymgeisio a reolir yn ganolog fel y gellir ystyried rhinweddau'r cais ochr yn ochr â cheisiadau eraill yng nghyd-destun blaenoriaethau'r Llywodraeth. Os bydd yn llwyddiannus, caiff trefniadau contractiol eu llunio er mwyn gweithredu.

## Argymhelliad 11

Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi manylion ynghylch dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol a wneir o fewn ei gyllideb a’r rhesymau dros y cyllid hwnnw, bob blwyddyn.

Ymateb: Derbyn:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth dryloyw ynglŷn â dyraniadau CTA a diben y cyllid hwnnw. Cyhoeddom fanylion dyraniadau CTA arfaethedig ynghyd â'u diben a'u defnydd posibl yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 ar 10 Rhagfyr 2024.

## Argymhelliad 12

Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi rhagor o eglurhad ynghylch y broses y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i ad-dalu ei chyfalaf trafodiadau ariannol i Drysorlys EF, ac yn sicrhau bod yr wybodaeth honno ar gael i’r cyhoedd.

Ymateb: Derbyn:

Cytunir ar ad-daliadau CTA i Drysorlys EF ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Cytunir ar werth ad-daliadau ym mhob blwyddyn ar sail y tanwariant a adroddir yn erbyn y gyllideb CTA derfynol namyn unrhyw danwariant y mae Llywodraeth Cymru yn ei gario ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

Mae'r swm yn cael ei nodi yn Adroddiad Alldro Llywodraeth Cymru.

## Argymhelliad 13

Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn esbonio sut y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio tanwariant mewn dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol fel cyfalaf cyffredinol.

Ymateb: Derbyn:

Mae CTA yn elfen wedi'i chlustnodi o setliad DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru na ellir ond ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddiadau benthyg neu ecwiti. Ni ellir ei ddefnyddio at ddibenion y tu allan i'r hyn a glustnodwyd ond gyda chytundeb Trysorlys EF.

## Argymhelliad 14

Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro faint o gyfalaf trafodiadau ariannol sy’n cael ei ailgylchu bob blwyddyn ariannol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei rhoi yn ei chyllideb ddrafft flynyddol a’i dogfennaeth alldro fel mater o drefn.

Ymateb: Derbyn

Yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddata ar ddyraniadau cyllid CTA newydd ac ad-daliadau CTA wedi'u hailgylchu. Mae cyfanswm cwantwm y cyllid sydd ar gael wedi'i ddyrannu, gan gynnwys elfen o or-raglennu i reoli tanwariant posibl. Ar hyn o bryd, mae'r Banc Datblygu yn ailgylchu CTA o fewn Cronfa Eiddo Cymru 2 a Chronfa Safleoedd Segur Cymru.

Yn 2023-24, buddsoddodd y Banc (gan ddefnyddio cyllid wedi'i ailgylchu) gyfanswm o £32,755,000. Roedd hyn wedi'i rannu'n £19,062,000 ar gyfer Cronfa Eiddo Cymru 2 a £13,693,000 ar gyfer Cronfa Safleoedd Segur Cymru. Cafodd y buddsoddiad hwn ei wrthbwyso'n sylweddol gan dderbyniadau eiddo yn y flwyddyn (82%) o £26,992,000. Mae hyn yn dangos y gwerth sylweddol am arian y gall ailgylchu cyllid ei gynnig o'i gymharu â chyllid newydd yn ystod y flwyddyn.